



# Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Caerdydd

Cofia ddysgu byw...

## Cogurdd 2025



Ydych chi'n aelod o'r Urdd ac yn awyddus i gystadlu mewn cystadleuaeth coginio?

Rydym yn gwahodd aelodau o flwyddyn 4,5,a 6 i gymryd rhan yn y rownd gyntaf a fydd yn cael ei chynnal yn yr ysgol ar ddydd lau, Hydref 14eg, 2024.

**Nodwch- Mi fydd angen i bob disgybl fod wedi ymaelodi er mwyn cystadlu yn y rownd gyntaf.**

Os oes diddordeb gennych mae'n bwysig eich bod yn darllen y manylion isod yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall gofynion y gystadleuaeth cyn ymrwymo.

Os yr ydych yn bendant am gystadlu gofynnwn i chi **gofrestru ar PARENTPAY erbyn dydd Gwener, 27ain o Fedi**, er mwyn i ni gael syniad o'r niferoedd os gwelwch yn dda. **Byddwn yn cynnal y rownd gyntaf yn neuadd yr ysgol o fewn oriau'r ysgol ar y 14eg o Hydref.**

Manylion Pwysig:

- Mae 3 rownd i gyd yn y gystadleuaeth.
- **Rownd 1**—Ysgol (14/10/24).
- **Rownd 2** – Rhanbarth (Ysgol Plasmawr) - 27/11/24).
- **Rownd 3** –Rownd Derfynol - Maes Eisteddfod yr Urdd, Parc Margam a'r Fro - Manylion i'w cadarnhau).

Ar gyfer Rownd 1 yn yr ysgol mi fydd angen paratoi 1 rysait penodol yn unig: **Wrap sawrus oer**

**Bydd gofyn i'r cystadleuwr baratoi wrap sawrus oer i 1 person.**

- Gall fod yn syml gyda chynhwysion traddodiadol neu yn fwy dyfeisgar
- Cynhwysion – bydd rhaid i chi ddod a'ch cynhwysion eich hun ar gyfer pob rownd.



# Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Caerdydd

Cofia ddysgu byw...

Peidiwch a defnyddio cnau o unrhyw fath yn eich ryseitiai yn ystod pob rownd.

- 45 munud i greu wrap oer gyda 15 munud i baratoi o flaen llaw (gosod offer/cynhwysion ar y ddesg a pwysu cynhwysion yn unig)

- Ar gyfer Rownd 2 a 3 mi fydd angen paratoi a choginio Byrgyr.
- Mi fydd **un** buddugol o'r ysgol yn mynd ymlaen i Rownd 2.
- **Y cystadleuwyr sy'n gyfrifol am ddarparu'r cynhwysion ac offer eu hunain ar gyfer Rownd 1 a 2.** Rhoddir 45 munud i baratoi y rysait yn Rownd 1 a 2.
- **COFIWCH BOD ANGEN YMAELODI GYDA'R URDD ER MWYN CYSTADLU.** <https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/>

## Poburdd 2025

Eleni am y tro cyntaf hefyd bydd yr Urdd yn cynnal cystadleuaeth PobUrdd i ddisgyblion cynradd!



Os oes diddordeb gennych mae'n bwysig eich bod yn darllen y manylion isod yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall gofynion y gystadleuaeth cyn ymrwymo. Os yr ydych yn bendant am gystadlu gofynnwn i chi gofrestru ar PARENTPAY erbyn dydd Gwener, 27ain o Fedi, er mwyn i ni gael syniad o'r niferoedd os gwelwch yn dda. **Byddwn yn cynnal y rownd gyntaf yn neuadd yr ysgol o fewn oriau'r ysgol ar y 14eg o Hydref.**

Manylion Pwysig:

- Mae 3 rownd i gyd yn y gystadleuaeth.
- **Rownd 1**—Ysgol (14/10/24).
- **Rownd 2**— Rhanbarth (Ysgol Plasmawr) - 27/11/24).
- **Rownd 3**—Rownd Derfynol - Maes Eisteddfod yr Urdd, Parc Margam a'r Fro - Manylion i'w cadarnhau).



# Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Caerdydd

Cofia ddysgu byw...

- Ar gyfer Rownd 1 yn yr ysgol mi fydd angen arddangos 4 Myffin melys

## **4 Myffin melys**

- Bydd gofyn i'r cystadleuwr gyflwyno 4 myffin melys

- **Bydd angen i'r cystadleuwr baratoi popeth o flaen llaw a pobi y 4 myffin adref. Dim ond cyflwyno'r pedwar myffin ar ddiwrnod y gystadleuaeth bydd angen.**

- Peidiwch a defnyddio cnau o unrhyw fath yn eich ryseitiau

- Byddwch yn fentrus ac yn greadigol gyda blas y pedwar myffin fel bod nhw'n sefyll allan!

- Ar gyfer Rownd 2 a 3 mi fydd angen addurno 4 cacen bach
- Mi fydd **un** buddugol o'r ysgol yn mynd ymlaen i Rownd 2.
- **COFIWCH BOD ANGEN YMAELODI GYDA'R URDD ER MWYN CYSTADLU.** <https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/>

